Beth yw'r uchafswm/isafswm tymheredd yn y gweithle?

Mae Rheoliadau'r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992 yn nodi gofynion arbennig ar gyfer y rhan fwyaf o agweddau ar yr amgylchedd gwaith.

Mae Rheoliad 7 y Rheoliadau hyn yn delio'n arbennig â'r tymheredd mewn gweithleoedd o dan do ac yn nodi:

1. Yn ystod oriau gwaith, rhaid i'r tymheredd ym mhob gweithle o fewn adeiladau fod yn rhesymol. Fodd bynnag, mae cymhwyso'r rheoliad yn dibynnu ar natur y gweithle h.y. popty, storfa oer, swyddfa, warws.

Mae'r Cod Ymarfer Cymeradwy cysylltiedig yn mynd yn ei flaen i esbonio: 'Dylai'r tymheredd mewn ystafelloedd gwaith fod yn rhesymol gyfforddus heb angen dillad arbennig. Pan fydd tymheredd o'r fath yn anymarferol oherwydd prosesau poeth neu oer, dylid cymryd pob cam rhesymol i gyrraedd tymheredd sydd mor agos â phosibl at fod yn gyfforddus. Mae 'ystafell waith' yn golygu ystafell lle mae pob yn gweithio fel arfer am fwy na chyfnodau byr.

Dylai'r tymheredd mewn ystafelloedd gwaith fel arfer fod o leiaf 16 gradd Celsius oni bai bod llawer o'r gwaith yn gofyn am ymdrech gorfforol galed. Os felly dylai'r tymheredd fod o leiaf 13 gradd Celsius. Fodd bynnag, efallai na fydd y tymereddau hyn yn sicrhau cysfforddusrwydd rhesymol, yn dibynnu ar ffactorau eraill fel symudiad yr aer a lleithder cymharol.'

yn ôl i'r brig

Pan fydd y tymheredd mewn ystafell waith fel arall yn anghyfforddus o uchel, er enghraifft oherwydd prosesau poeth neu gynllun yr adeilad, dylid cymryd pob cam rhesymol i gyrraedd tymheredd rhesymol gyfforddus, er enghraifft drwy:

- inswleiddio peirianweithiau neu bibellau poeth;
- darparu peirianweithiau sy'n oeri'r aer;
- cysgodi ffenestri;
- gosod gweithfannau i ffwrdd o'r mannau sy'n derbyn gwres pelydrol.

Os na ellir cael tymheredd rhesymol gyfforddus drwy'r holl ystafell waith, dylid darparu offer oeri lleol. Mewn tywydd eithriadol o boeth gellir defnyddio ffaniau a mwy o awyru yn hytrach nag oeri lleol.

Pan fydd gweithwyr yn gweithio mewn tymereddau nad ydynt yn rhoi cysfforddusrwydd rhesymol er bod offer oeri lleol wedi'u darparu, dylid darparu dillad diogelu a chyfleusterau seibiant. Pan fo'n ymarferol dylid rhoi systemau ar waith (er enghraifft, cylchdroi tasgau) i sicrhau y cyfyngir ar yr amser y mae gweithwyr unigol yn gorfod gweithio mewn tymereddau anghyfforddus.

Cyfeiriadau

- L24, Workplace health, safety and welfare, (ISBN 0717604136 – ar gael gan HSE Books)

- Cyhoeddiad canllaw HSE, Thermal Comfort in the Workplace, sy'n ceisio diffinio cyfforddusrwydd thermol, ac yn nodi: 'Rhwng tua 13°C (56°F) a 30°C (86°F) yw tymheredd derbyniol i'r rhan fwyaf o bobl yn y DU, gyda thymereddau derbyniol ar gyfer gweithgareddau mwy egnïol tuag at waelod yr amrediad, a gweithgareddau mwy eisteddol tuag at y tymereddau uchaf.'

HSG194, Thermal Comfort in the Workplace, (ISBN 0717624684 – ar gael gan HSE Books)